# Tystysgrif Lefel 3, Diploma Atodol, Diploma a Diploma Estynedig mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth (QCF) (0077-03)

www.cityandguilds.com
Mehefin 2010
Fersiwn 2.0

**Canllaw atebion aseiniadau**
**500/8719/8**
**500/8724/1**
**500/8564/5**
**500/8720/4**



**ASEINIAD 326 CYFLAWNI SGILIAU COEDYDDIAETH**

**Tasg C Gofynion cysylltiedig â thocio a datgymalu coed**

| | | |
|---|---|---|
| C1 | Diffiniwch y termau:<br>a) Tocio targed<br>b) Coler rhisgl cangen<br>c) Cribyn rhisgl cangen<br><br>**Tocio Targed - dylai'r toriad tocio gael ei wneud ychydig y tu allan i linell sy'n cysylltu coler y gangen a chribyn y gangen. Mae'n lleihau problemau wrth adfer.**<br><br>**Coler Rhisgl Cangen - y darn chwyddedig o feinwe'r boncyff sy'n ffurfio o gwmpas gwaelod cangen. Yr ardal o galeden sy'n gwella o gwmpas stwmp neu anaf ar goeden.**<br><br>**Cribyn Rhisgl Cangen - llinell o risgl garw sy'n rhedeg o'r gangen i fforch y boncyff ac i mewn i risgl y boncyff. Yr ail farcio i chwilio amdano ar fôn y canghennau i arwain eich tocio.** | **6 marc** |
| C2 | Disgrifiwch y technegau tocio canlynol:<br>a) teneuo coron<br>b) lleihau coron<br>c) tocio ffurfiannol<br>ch) codi coron<br>d) torri darnau marw<br>dd) bôn-docio<br><br>**Teneuo Coron - torri coesau a changhennau dethol i gynyddu treiddiad golau a symudiad aer ar hyd a lled coron coeden. Y bwriad yw gwella strwythur a ffurf coeden tra'n gwneud bywyd yn anghysurus i blâu coed.**<br><br>**Lleihau Coron - yn cael ei ddefnyddio amlaf pan fydd coeden wedi tyfu'n rhy fawr ar gyfer y lle a ganiateir iddo. Mae'n arwain at olwg mwy naturiol, yn cynyddu'r amser hyd y bydd angen tocio eto ac yn lleihau straen.**<br><br>**Tocio ffurfiannol - Tocio'r goeden tra ei bod yn ifanc i gywiro gwendid, neu i sefydlu siâp penodol. Unwaith y bydd y goeden/y coed wedi dod i arfer â'r amodau tyfu efallai y bydd angen peth tocio er mwyn sicrhau strwythur cywir y goeden.**<br><br>**Codi coron - sef cael gwared ar ganghennau o waelod coron coeden er mwyn rhoi digon o le i gerddwyr, cerbydau, adeiladau neu linellau gweld. Dylai'r goron fyw bresennol fod o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm taldra'r goeden.**<br><br>**Torri darnau marw - sef cael gwared ar unrhyw ganghennau sydd wedi marw neu sydd yn marw, wedi torri neu afiach oddi ar y goeden. Caiff y broses hon ei defnyddio i atal unrhyw beryglon allai gael eu hachosi gan ganghennau marw yn syrthio ar bobl neu ar eiddo. Mae torri darnau marw hefyd yn cynyddu maint y golau a'r awyr sy'n cylchdroi o fewn canopi'r goeden, mae'n lleihau'r perygl o blâu a chlefydau, gan wella iechyd a harddwch cyffredinol y goeden.** | **12 marc** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Bôn-docio - Yn draddodiadol tynnu'r holl ganghennau oddi ar foncyff y goeden. Tocio'r canghennau yn rheolaidd yn ôl i'r un lle (yn flynyddol neu bob chwe mis). Mae hyn fel arfer yn cael ei wneud yn uwch nag uchder y pen (2-3 metr o'r llawr) er mwyn annog tyfiant newydd o ben y tocbren.** | |
| C3 | Disgrifiwch sut mae systemau gostwng a ffrithiant yn gweithio<br>**Arafu cyflymder y gostwng gyda ffrithiant yn cael ei ddefnyddio i reoli'r gostwng** | **2 farc** |
| C4 | Nodwch **un** fantais o'r offer torri canlynol:<br>a) Llifiau cadwyn<br>b) siswrn tocio<br>c) llifiau llaw<br>ch) brigdocwyr<br>d) llifiau polyn<br>**Llifiau cadwyn - cyflym, da am bren diamedr mwy**<br>**Siswrn tocio – yn dawel, llai o PPE, darbodus, caredig wrth yr amgylchedd**<br>**Llifiau llaw = caredig wrth yr amgylchedd, tawel, ysgafnach, haws ei defnyddio, llai o PPE**<br>**Brigdocwyr – yr un fath â siswrn tocio (i goed mwy)**<br>**Llifiau polyn – torri o safle pell** | **5 marc** |
| C5 | Nodwch **un** fantais o'r offer datgymalu canlynol:<br>a) rhaffau gostwng<br>b) dyfeisiau ffrithiant<br>c) pwlïau<br>ch) craeniau<br>d) heyrn dringo<br>**Rhaff gostwng - rheoli'r gostwng**<br>**Dyfeisiau ffrithiant - yn caniatáu gostwng cangen drom yn ddiogel**<br>**Pwlïau - dyfais leoli**<br>**Craeniau - cael gwared ar ddarnau mawr mewn gofodau penodol**<br>**Heyrn dringo - dringo coed peryglus/ coed pwdr** | **6 marc** |
| C6 | Esboniwch DRI chaniatâd cyfreithiol allai fod eu hangen er mwyn gweithio ar goed<br>**Trwydded cwympo coed - Bydd trwydded cwympo coed fel arfer yn cynnwys amodau bod rhaid ail-stocio'r ardal lle mae'r coed wedi eu torri gan gynnal y coed am gyfnod heb fod yn hwy na deng mlynedd. Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn trafod unrhyw amod ail-stocio gyda'r ceisydd cyn rhoi'r drwydded. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd trwydded gwympo'n cael ei rhoi ar gyfer cwympo coed heb ail-stocio wedyn. Bydd cais o'r fath yn cael ei asesu dan y Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) 1999. Bydd trwydded gwympo ar gyfer teneuo coed yn cael ei chyhoeddi heb amod ail-stocio.**<br><br>**Caniatâd cynllunio - Mae angen i chi wneud cais am ganiatâd os ydych chi'n bwriadu gweithio ar goeden sy'n destun Gorchymyn Cadwraeth Coed, sydd o fewn ardal gadwraeth neu sy'n destun amodau cynllunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio. Er mwyn gweithio ar goed sy'n destun unrhyw rai o'r ffurfiau gwarchod uchod, bydd angen i chi gyflwyno manylion y cynigion hyn gan ddefnyddio ffurflen gais a darparu gwybodaeth benodol ynghylch:**<br>• **y rhesymau dros y gwaith arfaethedig**<br>• **nodi'r holl goed y mae eich cais yn ymwneud â nhw ar gynllun lleoliad safle neu gynllun braslun safle**<br>• **darparu manylion llawn y gwaith arfaethedig** | **6 marc** |

| | | |
|---|---|---|
| | • | |
| | **Caniatâd mewn ardaloedd cadwraeth - mae ardal gadwraeth yn ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol penodol y mae'n ddymunol cadw neu wella ei chymeriad neu ei golwg. Ansawdd a diddordeb ardaloedd yn hytrach nag adeiladau unigol yw'r brif ystyriaeth wrth adnabod ardaloedd cadwraeth ond yn anorfod bydd gan yr ardaloedd hyn lawer o adeiladau hanesyddol, llawer ohonyn nhw wedi eu rhestru o bosibl.**<br><br>**Caniatâd Gorchymyn Cadwraeth Coed (TPO) - sef Gorchymyn sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod i warchod coed a choetiroedd. Dim ond i warchod coed a choetiroedd y gellir ei ddefnyddio ac nid oes modd ei osod ar lwyni, perthi neu gloddiau ond gellir defnyddio Gorchymyn i amddiffyn coed sy'n tyfu mewn cloddiau neu gloddiau sydd wedi tyfu i fod yn llinell o goed.** | |
| C7 | Nodwch **bedwar** gofyniad diogelwch cysylltiedig â thocio a datgymalu coed<br>**Gofynion ar gyfer archwilio offer Asesiadau risg**<br>**Offer Gwarchod Personol (PPE)**<br>**Sefydlu parthau diogelwch**<br>**Gweithdrefnau mewn argyfwng**<br>**Offer achub Darpariaeth**<br>**cymorth cyntaf** | **8 marc** |
| | **Cyfanswm y marciau sydd ar gael** | **45** |